Bwrdd Partneriaeth
Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional
Partnership Board

# TALIADAU UNIONGYRCHOL

## Canllawiau i *Berson Addas* sy'n gweinyddu Taliadau Uniongyrchol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ystyried Taliadau Uniongyrchol fel elfen annatod wrth ddiwallu anghenion unigolyn trwy gynllunio gofal a chymorth.

Yn dilyn asesiad gan Ymarferydd Gofal Cymdeithasol sy'n dod i'r casgliad bod yr unigolyn yn bodloni'r meini prawf i gael gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol, rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried a thrafod Taliadau Uniongyrchol gyda'r unigolyn, fel ei fod yn gwybod bod opsiwn o gael Taliad Uniongyrchol. Mae Taliadau Uniongyrchol yn opsiwn arall yn lle Gofal a Chymorth a geir yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol.

Efallai y bydd sefyllfaoedd lle nad oes gan unigolyn y galluedd meddyliol i gydsynio i Daliadau Uniongyrchol ac i gytuno i'w cael. Gall Awdurdod Lleol benodi rhywun i weithredu ar ran yr unigolyn nad oes ganddynt alluedd meddyliol, i weinyddu Taliad Uniongyrchol a'i weithredu ar ei ran. Yr enw ar hyn yw *Person Addas* penodedig.

Fodd bynnag, gall unrhyw un sydd wedi'i awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion y person am ofal a chymorth, ofyn am Daliad Uniongyrchol ar ei ran a bydd yn gweithredu fel y *Person Addas* penodedig.

### Pwy sy'n gallu bod yn *Berson Addas*?

Bydd *Person Addas* yn cytuno i weithredu er lles pennaf yr unigolyn sydd â diffyg galluedd. Mae'n llofnodi'r cytundeb gwasanaeth (contract) gyda'r Awdurdod Lleol ac yn cytuno i gadw at yr amodau a'r telerau ac yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o weinyddu Taliad Uniongyrchol a'i weithredu.

Dyma'r rhai sy'n gallu bod yn *Berson Addas* penodedig:

- Rhywun sydd ag Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer Cyllid a/neu Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Rhywun sy'n gweithredu fel Dirprwy o dan y Llys Gwarchod
- Rhywun y mae'r Awdurdod Lleol yn gofyn iddo weithredu fel Person Addas.
- Rhywun sy'n gofyn am fod yn Berson Addas i'r unigolyn (aelod o'r teulu, ffrind, un o'i g/chyfoedion)
- Sefydliad trydydd parti

### Cael eich penodi yn *Berson Addas*

Wrth ystyried bod yn *Berson Addas* i gael Taliadau Uniongyrchol ar ran rhywun gallai'r wybodaeth ganlynol fod yn ddefnyddiol:

- Mae *Person Addas* yn gweithredu ar ran unigolyn nad oes ganddo alluedd meddyliol i gydsynio i gael Taliadau Uniongyrchol.
- Rhaid i'r *Person Addas* fod yn fodlon cyflawni'r rôl a rhaid fod ganddo'r gallu i gyflawni'r rôl.



- Gall y rôl gynnwys cyfrifoldebau cyfreithiol, e.e. cyflogi staff, cadw at gyfraith a rheoliadau cyflogaeth, comisiynu gwasanaeth gydag asiantaeth ofal gofrestredig neu brynu darn o offer.
- Nid oes unrhyw fudd ariannol/incwm yn gysylltiedig â rôl y *Person Addas*.
- Bydd y *Person Addas* yn derbyn cymaint neu gyn lleied o gymorth ag sydd ei angen arno i reoli'r Taliad Uniongyrchol.

**Rolau a Chyfrifoldebau fel *Person Addas* penodedig**

Pan fydd rhywun yn cytuno i weithredu fel *Person Addas* cymerir camau addas i wirio pwy ydyw ac i wirio diogelwch. Os oes ganddo Atwrneiaeth Arhosol neu mae'n Ddirprwy o dan y Llys Gwarchod, gofynnir am dystiolaeth o hyn.

Bydd mesurau diogelu a chamau troseddol yn cael eu dilyn os bydd unrhyw un yn cam-fanteisio ar eu sefyllfa mewn ffordd anonest neu dwyllodrus er eu budd eu hunain neu eraill a/neu'n achosi colled i'r unigolion neu'n ei agor i fyny i risg a/neu golled. Rhaid i *Berson Addas* weithio er lles pennaf yr unigolyn.

- Mae'r *Person Addas* yn atebol am y ffordd y caiff y Taliadau Uniongyrchol eu defnyddio.
- Rhaid i *Berson Addas* gynnwys yr unigolyn cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol a rhoi cymaint o reolaeth ac annibyniaeth â phosibl iddo.
- Mae'r *Person Addas* yn cytuno i ddweud wrth yr Awdurdod Lleol am newidiadau neu anawsterau, yn enwedig os yw'n credu bod yr unigolyn wedi cael ei alluedd yn ôl.
- Bydd y *Person Addas* yn llofnodi Cytundeb Taliadau Uniongyrchol gyda'r Awdurdod Lleol ac yn rhwym wrth delerau'r cytundeb.
- Os yw'r *Person Addas* yn cyflogi Cynorthwywyr Personol, rhaid iddo sicrhau ei fod yn gweithredu'n gyfreithlon fel cyflogwr.
- Gall *Person Addas* gomisiynu asiantaeth ofal gofrestredig i ddarparu gofal a chymorth; a bydd yn gyfrifol am lefel y gofal a'r cymorth a brynir yn unol â Chynllun Gofal a Chymorth yr unigolyn.
- Os yw *Person Addas* yn rhoi'r gorau i'w rôl, rhaid iddo gysylltu â'r Awdurdod Lleol
- Os oes gan y Person y mae'n ei gynrychioli alluedd sy'n newid, rhaid i'r *Person Addas* sicrhau yn ystod cyfnodau pan fydd yn cael ei alluedd yn ôl, ei fod yn ei gynnwys gymaint ag sy'n ymarferol wrth wneud unrhyw benderfyniadau.
- Ni ellir cyflogi *Person Addas* fel CP ar gyfer yr unigolyn.
- Rhaid bod cynllun wrth gefn yn ei le rhag ofn na fydd y *Person Addas* yn gallu bod yn 'Berson Addas' mwyach.

**Pa gefnogaeth sydd ar gael i'r *Person Addas*?**

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol ar gael i ddarparu gwybodaeth a chymorth mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol yn yr un modd ag y byddai'n cefnogi unrhyw un sy'n cael Taliadau Uniongyrchol.

## Cysylltiadau Defnyddiol

Mae gan bob Awdurdod Lleol Dîmau Cymorth Taliadau Uniongyrchol profiadol i gefnogi gydag ymholiadau neu wybodaeth. Maen nhw'n rhoi cymaint o help a sicrwydd ag sydd ei angen, nes bod gan yr un sy'n cael y Taliad Uniongyrchol yr hyder i reoli'r trefniadau ei hun.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am Berson Addas a Thaliadau Uniongyrchol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol lleol.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
**Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** directpayments@blaenau-gwent.gov.uk **f.** 01495 355265

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
**Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** directpayadvisors@caerphilly.gov.uk **f.** 01495 235522

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy**
**Tîm Taliadau Uniongyrchol**
**e.** mccdirectpaymentteam@monmouthshire.gov.uk

**Cyngor Dinas Casnewydd**
**Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol**
**e.** direct.payments@newport.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**Tîm Byw'n Annibynnol (Taliadau Uniongyrchol)**
**e.** independentlivingteam@torfaen.gov.uk

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD · Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council · monmouthshire sir fynwy · TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN · CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI